# Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

**2016 dccc 2**

**RHAN 7**

GORCHMYNION SY'N GWAHARDD GWAITH MEWN GOFAL CYMDEITHASOL: PERSONAU ANGHOFRESTREDIG

*Darpariaeth atodol*

## 172 Rhestr o bersonau sydd wedi eu gwahardd

(1) Rhaid i GCC sefydlu a chynnal rhestr o bersonau y mae gorchymyn gwahardd neu orchymyn gwahardd interim yn cael effaith mewn cysylltiad â hwy.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth ynghylch—

(a) ffurf a chynnwys y rhestr;

(b) pa un a yw'r rhestr, neu wybodaeth benodedig o'r rhestr, i'w chyhoeddi ai peidio;

(c) rhoi'r rhestr ar gael—

(i) i bersonau o ddisgrifiad penodedig, neu

(ii) er mwyn i'r cyhoedd edrych arni.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 172 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 188(1)**

**I2** A. 172 mewn grym ar 3.4.2017 gan O.S. 2017/309, **ergl. 2(f)** (ynghyd ag erglau. 3, 4, Atod.)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, Adran 172.